

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd Nos Lun, Chwefror 19eg am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.

Presennol: Cynghorwyr, Roy Tickle (Chairman), Catherine Jones (Dirprwy gadeirydd), Gaynor Morgan Rees, Colin L Hughes, Gaynor Wood-Tickle, Marilyn Jones & Guto Lloyd-Davies; a Jenny Barlow (Clerc y Dref).

Ymddiheuriadau: Dim

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod mis Chwefror.

1. Datgan Diddordeb Personol:

Enw	Eitem Agenda	Niweddion	Personol
Cyng Roy Tickle	55a1 & 55a2		la
Cyng Marilyn Jones	55a1 & 55a2		la
Cyng Gaynor Wood-Tickle	55a1 & 55a2		la
Cyng Catherine Jones	55a1 & 55a2		la

2. Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Ionawr 15fed 2018.

3. Materion yn codi: Dim

4. A - Amgylchedd.

Rhoddodd clerc y dref orolwg o'r materion cyfredol yng ngherddi coffa Dr Evan Pierce i gynnwys yswiriant, cynnal tiroedd, llawfeddyg coed, henebion, a chynnal a chadw eiddo cyfagos, digwyddiadau yn yr ardd, ffynhonnau a chefnogaeth Prue Probert.

(1) Llythyr oddi wrth Ddinbych yn ei Blodau.

Gofynnodd cynghorwyr y dref i glerc y dref ysgrifennu at Mrs Lyndsey Tasker, cadeirydd grŵp Dinbych yn ei Blodau, gan gydnabod y llythyr a chynghori bod y gerddi'n brosiect parhaus. Bydd y materion a godir yn y llythyr yn cael eu hystyried yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae angen i'r cyngor tref ystyried yr ardd yn gyffredinol ac nid un rhan. Defnyddiwyd y contractwyr cynnal a chadw ers dros 10 mlynedd i lefel foddhaol.

(2) E-byst gan Gymdeithas Ddinesig Dinbych.

Anfon yr ymateb uchod i Gymdeithas Ddinesig Dinbych.

Rhoddwyd caniatâd hefyd gan gynghorwyr y dref am y gerddi i'w defnyddio ar ddydd Sadwrn 16eg Mehefin fel rhan o ddigwyddiadau gwyliau'r haf. Gofynnwyd i glerc y dref ofyn am gopi o'u hasesiad risg ar gyfer y digwyddiad yn ogystal â'u sicrwydd yswiriant.

(3) E-bost gan Prue Probert.

Gofynnodd cynghorwyr y dref y byddai clerc y dref yn cysylltu â swyddog coed Coedwig Sir y Fflint i edrych ar y goeden Cedar i weld a yw wedi marw yn wir o'r blinder Syrococws. Bydd angen ceisio cyngor pe bai wedi marw o'r clefyd hwn fel sut i waredu'r goeden. Gofynnwyd i glerc y dref gysylltu â Mr Peter Spencer a Prue Probert ar y mater hwn.

B. Cyllid

1. Cyfrifon: Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

(1)	Clwyd Wynne, costau darlith 25.01.18 (Rhif siec 006371 yn daladwy i'r Grŵp Archif Dinbych)	-	£40.00
(2)	Fiona Gale, costau darlith 22.02.18 (Rhif siec 006372)	-	£20.00
(3)	Viking, offer swyddfa, stampiau (Rhif siec 006373)	-	£56.00
(4)	Viking, offer swyddfa, stamp dyddiad (Rhif siec 006374)	-	£36.44
(5)	Viking, offer swyddfa, ysgrifbin (Rhif siec 006375)	-	£6.08
(6)	Sodexo, cynnal a chadw tiroedd gardd Dr E.P. Garden, Ionawr - (Rhif siec 0006376)	-	£339.60
(7)	Idiom, Cyfieithu 22.01.18 (Rhif siec 006377)	-	£163.44
(8)	CSDd, goleuadau Nadolig (Rhif siec 006378)	-	£11,460.00
(9)	Catalyst, Ionawr wrth gefn (Rhif siec 006379)	-	£17.22
(10)	Jones & Graham, gweinyddiad cyflog chwarterol 01/10 - 31/12- (Rhif siec 006380)	-	£42.30
(11)	Cymdeithas Gefeillio Dinbych, aelodaeth gorfforaethol (Rhif siec 006381)	-	£10.00
(12)	Sandra Williams, cyfieithu 11/01, 15/01 & 16/01 (Rhif siec 006382)	-	£309.60
(13)	Zen, Internet 03/03/18 - 03/04/18 (Rhif siec 006383)	-	£18.37

Cyfanswm taliadau £12,519.05.

2. Adroddiad ariannol 01.01.18 - 31.01.18. - Derbyniwyd a chymeradwywyd.
Cyfanswm taliadau sieciau hyd yma £152,289.85 balans i lyfr arian parod.

3. **Credyd:** a) Ad-daliad TAW HMRC £502.39.

4. **Cymorthdaliadau:**

a) Ceisiadau gymhorthdal. Cytunwyd y canlynol gan gynghorwyr y dref.

1) Grŵp Digwyddiadau Dinbych - Gŵyl Gwrw Gwanwyn Dinbych. SL137 - (Rhif siec 006386)	£400.00
2) Grŵp Digwyddiadau Dinbych - Dydd Gŵyl Dewi Dinbych. SL137 - (Rhif siec 006387)	£700.00
3) Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. SL137 - (Rhif siec 006388)	£100.00
4) Tenovus. SL137 - (Rhif siec 006389)	£100.00

b) Nodi derbyn llythyron a negeseuon e-bost o ddiolch -

- 1) Zen, Taliad siec anfoneb 24248927 £18.37.
- 2) Zen, Taliad siec anfoneb 24433451 £18.37.
- 3) Theatr Twm o'r Nant - e-bost gan Gwyneth Kensler.
- 4) Theatr Twm o'r Nant - e-bost gan Emyr Owen yn cydnabod derbyn taliad, cymorth grant £1,819.62.
- 5) E-bost gan Sion Aled, Eisteddfod yr Urdd, gyda £6,000 wedi'i ddyrannu yn y gyllideb ar gyfer 2018/2019 o Gyngor Tref Dinbych.
- 6) E-bost oddiwrth Dolwen, cymorth o £80.00.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am o'r 8.07yh o'r gloch.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad.....